Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Disgrifiad Swydd: Darlithydd Astudiaethau Cydymaith Meddygol - Llwybr Addysg

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Astudiaethau Cydymaith Meddygol |
| **Cyflog:** | Gradd 8: £39,355 i £45,413 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn USS.<br>Bydd y cyflog ar y raddfa gyflog academaidd neu'r raddfa gyflog academaidd glinigol lle bo'n berthnasol. I'r rhai hynny sydd ar y raddfa gyflog academaidd glinigol, bydd oriau rhan-amser yn unig ar gael, hynny yw 17.5 o oriau, 2.5 niwrnod yr wythnos. |
| **Oriau gwaith:** | Amser llawn - Caiff secondiadau a cheisiadau am waith rhan-amser eu hystyried. |
| **Nifer y swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Cyflenwi yn ystod absenoldeb mamolaeth am gyfnod penodol tan fis Mai 2027 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Singleton |

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth Gefndirol** | Sefydlwyd rhaglen Astudiaethau Cydymaith Meddygol Prifysgol Abertawe yn 2016 ac mae ganddi hanes llwyddiannus o addysgu myfyrwyr a chefnogi eu dilyniant a'u llwyddiant yn yr arholiad cydymaith meddygol cenedlaethol. Cynhelir y Rhaglen Meistr Astudiaethau Cydymaith Meddygol (MPAS) dros gyfnod o ddwy flynedd a bydd myfyrwyr yn treulio oddeutu hanner yr amser yn y Brifysgol a hanner arall yr amser ar leoliad gwaith. Mae'r rhaglen yn cynnwys sawl modiwl ac addysgir y cynnwys yn seiliedig ar y cwricwlwm astudiaethau cydymaith meddygol cenedlaethol (FPA 2022) a'r deilliannau dysgu cydymaith meddygol ac AA cyffredinol ac a rennir (GMC, 2022). Mae cymysgedd o staff ar y rhaglen o amryw broffesiynau gofal iechyd sy'n ychwanegu at gyfoeth ac amrywiaeth yr addysgu a'r profiadau addysgu y gallwn eu cynnig i fyfyrwyr.<br><br>Fel darlithydd ar y rhaglen MPAS bydd angen i chi addysgu ar draws y rhaglen, wrth gyflwyno sgiliau cyfathrebu a chlinigol ac ar y modiwl Sylfaen mewn Meddygaeth Glinigol. Bydd angen i chi hefyd gynorthwyo wrth drefnu'r gwaith addysgu a pharatoi ar gyfer y sesiynau. At hynny, disgwylir i ddeiliad y swydd gyfrannu at asesiadau (eu llunio a'u hasesu), gweithredu fel tiwtor personol a chymryd rhan mewn cyfweliadau derbyn.<br><br>Mae'r rôl yn gyfle cyffrous i ymuno â'r Rhaglen Astudiaethau Cydymaith Meddygol, sy'n rhan o Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe. Byddwch yn gweithio gyda thîm deinamig a chyfeillgar ac wedi'ch lleoli yn harddwch de-orllewin Cymru, gan weithio yn un o Ysgolion Meddygaeth mwyaf blaenllaw'r DU. Mae Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe yn darparu ymagwedd ryngddisgyblaethol, gan addysgu a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o feddygon, gwyddonwyr bywyd a gweithwyr iechyd proffesiynol. Rydym yn cydweithio â'r GIG, busnesau a'r trydydd sector mewn ysbryd o arloesi agored ac mae wedi ei sefydlu ei hun fel lle o'r radd flaenaf i ddysgu, ymchwilio ac arloesi. |
| **Llwybrau Gyrfa Academaidd** | Nod y cynllun Llwybrau Gyrfa Academaidd yw sicrhau bod cryfderau academaidd ar draws ystod eang o weithgareddau, megis ymchwil, addysgu, profiad y myfyrwyr, arloesi, ymgysylltu, mentergarwch, arweinyddiaeth, rheolaeth a natur gydweithredol ehangach yn cael eu cydnabod, eu datblygu, eu gwerthfawrogi a'u gwobrwyo'n briodol. Ceir pedwar llwybr gyrfaol:<br><br>• Addysg<br>• Addysg ac Ymchwil (Addysg)<br>• Addysg ac Ymchwil (Ymchwil)<br>• Ymchwil<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lwybrau Gyrfa Academaidd, cliciwch yma.<br><br>Mae'r meini prawf ar gyfer pob llwybr yn darparu lefelau perfformiad dangosol i staff academaidd ar bob lefel, o Ddarlithydd i Athro, a ddefnyddir drwy gydol y broses recriwtio. Caiff tystiolaeth a ddarperir yn erbyn pob maen |

| | |
|---|---|
| | prawf ei hystyried yng ngoleuni cam gyrfa, oriau gwaith, amgylchiadau unigol neu weithgareddau cysylltiedig â gwaith y tu allan i'r byd academaidd, megis ym myd diwydiant neu mewn lleoliad clinigol. Mae croeso i chi nodi cyd-destun mewn perthynas ag unrhyw amgylchiadau unigol perthnasol megis saib yn eich gyrfa, cyfnodau estynedig o wyliau neu absenoldeb, neu gyfrifoldebau gofalu, er enghraifft, a sut mae'r rhain wedi effeithio ar ddatblygiad eich gyrfa. |
| **Prif Ddiben y Swydd** | 1. Addysg: Gallu cynllunio, cyflwyno, gwerthuso ac asesu gweithgareddau addysgu i safon uchel, ymgysylltu'n effeithiol â myfyrwyr a chydweithredu â chydweithwyr er mwyn helpu i wella arferion addysgu personol ac arferion addysgu pobl eraill.<br>2. Ymchwil: Gallu ymgymryd â gwaith ymchwil ac arloesi i safon dda a'i gefnogi.<br>3. Arloesi, Ymgysylltu a Mentergarwch: Cyfraniadau ym meysydd arloesi, ymgysylltu neu fentergarwch<br>4. Cydweithio, Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Gwasanaeth: Gallu cyfrannu mewn ffordd foddhaol at amrywiaeth o rolau gweinyddol sy'n ymwneud â gweithgarwch academaidd |
| **Dyletswyddau cyffredinol** | 5. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chydweithredol.<br>6. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>7. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>8. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.<br>***Mae gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd yn ofynnol a rhaid i hwn gael ei dderbyn a'i asesu cyn y gellir cadarnhau dyddiad dechrau*** |

| **Meini Prawf y Fanyleb Person:** | **Tystiolaeth nodweddiadol:** |
|---|---|
| **Cymwysterau** | |
| 1. PhD mewn maes pwnc perthnasol neu radd a phrofiad neu gymhwyster proffesiynol fel Cydymaith Meddygol neu fel Meddyg. | *PhD, Doethuriaeth Broffesiynol, aelodaeth siartredig o gorff proffesiynol, cofrestriad meddygol etc.* |
| 2. Cymhwyster addysgu cydnabyddedig a fyddai'n arwain at Gymrodoriaeth o'r Academi Addysg Uwch (HEA) neu ymrwymiad i gyflawni hyn | *Cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch neu gymhwyster cyfwerth, cymhwyster addysgu cydnabyddedig arall, neu ymrwymiad i weithio tuag at Gymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch neu gyfwerth.* |
| **Addysg** | |
| 3. Gwybodaeth a Gwerthoedd Proffesiynol. | *Ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus a'i gymhwyso er mwyn gwella ymarfer addysgol a'ch datblygiad fel addysgwr.* |
| 4. Datblygu'r cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu. | *Gweithgareddau sy'n arwain at welliannau amlwg i'r cwricwlwm, gwelliannau i'r amgylchedd dysgu neu greu gweithgareddau sy'n datblygu unigolion a grwpiau amrywiol o ddysgwyr.* |
| 5. Cymorth i ddysgwyr, cymunedau dysgwyr a'r effaith ar ddysgwyr. | *Enghreifftiau o welliannau i gymorth i ddysgwyr, a datblygu cymunedau dysgwyr sy'n gwella ymdeimlad myfyrwyr o berthyn, gan gynnwys tystiolaeth o effaith.* |
| 6. Dylanwad ar gymunedau academaidd/dysgwyr ehangach. | *Tystiolaeth o ddylanwad cadarnhaol ar gydweithwyr a'r gymuned academaidd ehangach er mwyn gwella profiad addysgol myfyrwyr.* |
| **Ymchwil** | |
| 7. Cyfraniad at gynhyrchu gwybodaeth. | *Cyfraniadau amlwg at gynhyrchu gwybodaeth a syniadau, sut maen nhw wedi cael eu cyfleu ac unrhyw gyllid neu ddyfarniadau sy'n cydnabod y gweithgarwch hwn.* |

| | |
|---|---|
| 8. Cyfrannu at ddatblygiad unigolion. | *Dangos sut mae arbenigedd wedi cael ei ddarparu i dimau, ymchwilwyr unigol a staff yn yr ecosystem Ymchwil ac Arloesi er mwyn ategu eu datblygiad.* |
| 9. Cyfraniad at y gymuned ymchwil ac arloesi ehangach. | *Datblygu'r gymuned Ymchwil ac Arloesi drwy weithgareddau ar draws disgyblaethau, sefydliadau a/neu wledydd.* |
| 10. Cyfraniad at gymdeithas ehangach. | *Cyfnewid gwybodaeth â rhanddeiliaid perthnasol sy'n cael effaith amlwg.* |
| **Arloesi, Ymgysylltu a Mentergarwch** | |
| 11. Canlyniadau ac effaith | *Sicrhau canlyniadau ac effaith amlwg sy'n ychwanegu gwerth drwy syniadaeth a/neu drosglwyddo syniadau, dulliau, cynhyrchion, gwasanaethau neu atebion, er enghraifft i fusnesau, y llywodraeth, maes iechyd a llesiant, yr amgylchedd, cymdeithas, a bywyd diwylliannol, yn fewnol ac yn allanol.* |
| 12. Prosiectau a Gweithgareddau. | *Dylunio, cynllunio, rheoli a chyflwyno gweithgareddau prosiect yn llwyddiannus, gan gynnwys sicrhau adnoddau mewnol ac allanol gofynnol gan noddwyr fel sylfaen i brosiectau a'r gweithgareddau.* |
| 13. Cyfathrebu a Phartneriaethau. | Cyflwyno a chymryd rhan mewn cyfathrebu cynhyrchiol/pwrpasol mewnol ac allanol. *Nodi a datblygu partneriaethau ystyrlon â rhanddeiliaid allanol.* |
| **Cydweithredu, Arweinyddiaeth, Rheoli a Gwasanaeth** | |
| 14. Cydweithredu/Gwasanaeth. | Darparu enghreifftiau myfyriol o sut rydych chi wedi dangos dinasyddiaeth barhaus ac wedi cymryd rhan yn gyson yn ystod cyfnod eich penodiad.*Rhowch dystiolaeth o'ch effaith sy'n briodol i'r lefel.* |
| 15. Datblygu, Mentora a Rheoli Eraill. | *Rheoli a datblygu eraill, gan gynnwys o bosibl waith mentora, rheoli llinell, neu reoli grwpiau ac unedau.* |
| 16. Arwain yn y Brifysgol. | *Cyfranogiad ac arweinyddiaeth fewnol yn y Brifysgol sy'n ymwneud â phortffolio penodol neu gyfrifoldeb am feysydd gweithgarwch cyfan.* |
| ***Penodol i'r pwnc*** | |
| 17. Profiad clinigol fel cydymaith meddygol mewn gofal sylfaenol neu eilaidd neu brofiad o berthynas waith agos â chymdeithion meddygol.<br>18. Profiad/arbenigedd addysgu clinigol<br>19. Profiad o addysg feddygol/cydymaith meddygol o safon sgiliau addysgu/arddangos a chlinigol a chyfathrebu<br>20. Gwybodaeth am anghenion addysgol a lleoliadau gwaith cymdeithion meddygol<br>21. Y gallu i weithio mewn tîm ac yn annibynnol.<br>22. Y gallu i feithrin a chynnal perthnasoedd â'r tîm addysgu, darparwyr lleoliadau gwaith, rhanddeiliaid, rhwydweithiau lleol a chenedlaethol.<br>23. Sgiliau TG da<br>24. Sgiliau rheoli amser a threfnu da<br>25. Lefel uchel o gymhelliant a'r gallu i ymateb yn dda i gyfnodau lle ceir llwyth gwaith addysgu trwm<br>26. Wedi'i gofrestru ar y Gofrestr Wirfoddol a Reolir o Gymdeithion Meddygol neu'r GMC | *Profiad gwaith a/neu brofiad bywyd i ddangos sut caiff y meini prawf hyn eu bodloni.* |

| Y Gymraeg |
|---|
| Level 1 – ‘a little’ - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we’r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |